



Chwaraeon Anabledd Cymru

Adroddiad Arolwg Clybiau a Sesiynau Cynhwysol

Medi 2023 a Mawrth 2024

Deall nifer y bobl anabl sy'n actif mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yng Nghymru.



Adroddiad Arolwg Clybiau a Sesiynau Cynhwysol – Medi 2023 a Mawrth 2024

Crynodeb Gweithredol

Mae adroddiad yr arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol o fis Medi 2023 a mis Mawrth 2024 wedi dangos bod llai o fenywod anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol na sydd o wrywod anabl. Yn gyson, mae llai o fenywod anabl yn genedlaethol, ar draws y grwpiau oedran, na sydd o wrywod anabl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol. Fodd bynnag, mae ychydig o amrywiadau yn y data wrth ystyried y data rhanbarthol, gan eu bod wedi'u hystumio o bosibl gan un clwb yn adrodd bod eu holl gyfranogwyr yn y categori rhywedd arall. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae angen darparu mentrau chwaraeon a gweithgarwch corfforol mwy cynhwysol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ymgysylltu gan fenywod anabl ar draws y grwpiau oedran. Yn ogystal, mae angen cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg, y rhai o gymunedau ethnig amrywiol, a'r rhai sy'n uniaethu fel LGBTQI+ sy'n ymgysylltu â chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol. Drwy gydol yr adroddiad mae rhai meysydd penodol i ranbarth i'w datblygu ymhellach.

Roedd yr arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol ym mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024 hefyd yn ystyried y gweithlu anabl o fewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol. O'r arolwg, canfuwyd mai dim ond 20% o'r gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol oedd yn anabl, sy'n is na phoblogaeth Cymru o bobl anabl o Gyfrifiad 2021, a gofnododd ffigur y boblogaeth o bobl anabl fel 21%. O ganlyniad, mae angen cynyddu nifer y bobl anabl o fewn y gweithlu chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol.

Cefndir


Mae'r adroddiad yma o'r arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol wedi cael ei ysgrifennu i ddeall tueddiadau data pobl anabl o fewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol. Fe ddechreuodd yr arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol ym mis Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal ddwywaith y flwyddyn ym misoedd Mawrth a Medi. Cesglir y data gan ddefnyddio platfform arolygu ar-lein a chaiff ei gwblhau gan gynrychiolydd o'r clwb neu'r sesiwn gymunedol. Ar gyfer yr adroddiad hwn mae'r data wedi cael eu cyfuno o arolygon mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024 er mwyn gallu creu cyfle i ddeall y tueddiadau data yn lefelau gweithgarwch corfforol pobl anabl ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024.

Mae'r adroddiad hwn ar yr arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol yn dangos nifer y bobl anabl oedd yn actif mewn clybiau a sesiynau cymunedol yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'r data hyn yn werthfawr i ddangos effaith y gwaith y mae Chwaraeon Anabledd Cymru, y Partneriaethau Rhanbarthol a thimau datblygu chwaraeon yr Awdurdodau Lleol yn ei wneud ar bobl anabl. Mae'r data hyn yn casglu a yw'r cyfranogwyr yn fenywaidd, yn wrywaidd, neu'n uniaethu fel rhywedd arall. Er enghraifft, trawsryweddol, niwtral o ran rhywedd, anneuaidd, afrywedd, pararywedd, rhywedd cwiar, dau ysbryd, trydydd rhywedd, neu unrhyw rywedd arall maent yn uniaethu ag ef. Mae'r data hyn hefyd yn ystyried croestoriad y cyfranogwyr drwy gasglu data am nifer y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg, o Gymunedau Ethnig Amrywiol, ac yn Uniaethu fel LGBTQ+. Mae'r data hyn, felly, yn rhoi gwybodaeth i ni am y bobl anabl a chroestoriad y bobl anabl sydd wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol cynhwysol yng Nghymru rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

Data Cyfranogiad Anabl

Mae'r arolygon clybiau a sesiynau cynhwysol wedi'u cyfuno o fis Medi 2023 a mis Mawrth 2024 yn amlygu bod canran y cyfranogwyr anabl benywaidd yng Nghymru yn 35% o gyfanswm nifer y cyfranogwyr, tra bo canran y cyfranogwyr anabl gwrywaidd yn 56%. Mae canran y cyfranogwyr anabl eraill yn uwch nag mewn llawer o arolygon blaenorol ar 9%, gan fod hyn wedi bod yn gyson is na 6% yn flaenorol. O ystyried croestoriad y data, mae canran y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg yn 12%, sydd rhwng yr ystod o 8% i 29% a gofnodwyd yn flaenorol yn yr arolygon. Mae'r ffigur hwn hefyd yn agos at ddata Cyfrifiad 2021 lle cofnodwyd bod 13% o bobl anabl yn siarad Cymraeg. O edrych ar y data cymunedau ethnig amrywiol, mae nifer y bobl anabl sy'n dod o gymunedau ethnig amrywiol yn 6% o'r arolygon cyfun. Er bod arolwg mis Medi 2023 wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, mae'n bosibl bod y ffigur hwn bellach yn gostwng yn ôl i ffigurau blaenorol o rhwng 3% a 7%. Gall hyn fod oherwydd nad yw prosiect Codi Allan Bod yn Actif (GOGA) yn canolbwyntio bellach ar gefnogi pobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Felly, mae'r lefelau cyfranogiad yn dychwelyd i'w lefelau blaenorol cyn gweithredu'r prosiect GOGA. Mae'r ffigurau ar gyfer y rhai sy'n uniaethu fel LGBTQI+ yn gyson ac yn sefydlog ers mis Mawrth 2022 ar 1%. Mae hyn yn sylweddol is na'r 12.6% o'r boblogaeth anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ yn ôl y Cyfrifiad (2021).

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl yng Nghymru	Cyfranogwyr Anabl Benywaidd		Cyfranogwyr Anabl Gwrywaidd		Cyfranogwyr Anabl Eraill		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
		Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Medi 2023	2613	899	34%	1684	65%	30	1%	325	12%	319	12%	34	1.3%
Mawrth 2024	5292	1872	35%	2754	52%	666	13%	565	11%	193	4%	54	1%
Cyfun Medi 2023 a Mawrth 2024 (ar ôl tynnu'r dyblygu)	7467	2625	35%	4154	56%	688	9%	874	12%	444	6%	72	1%




Data Cyfranogwyr Anabl Ar Draws y Grwpiau Oedran


O'r arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol mae modd sicrhau gwybodaeth am ba grwpiau oedran ymhlith y boblogaeth anabl sydd fwyaf actif a pha grwpiau oedran sydd lleiaf actif. Gellir gweld o'r data mai'r ganran uchaf o bobl anabl sy'n actif yw gwrywod rhwng 0 a 17 oed, gyda'r grŵp oedran lleiaf actif yn bobl anabl eraill rhwng 18 a 59 oed. Benywod anabl rhwng 0 ac 17 oed yw'r ail grŵp mwyaf actif.



	Cyfan swm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023	2613	451 (17%)	405 (16%)	43 (1.7%)	764 (29%)	830 (32%)	90 (3%)	5 (0.2%)	5 (0.2%)	20 (0.8%)
Mawrth 2024	5292	1315 (25%)	375 (7%)	182 (3%)	1804 (34%)	671 (13%)	279 (5%)	617 (12%)	21 (0.4%)	28 (0.5%)
Cyfun Medi 2023 a Mawrth 2024 (ar ôl tynnu'r dyblygu)	7467	1668 (22%)	743 (10%)	214 (3%)	2401 (32%)	1399 (19%)	354 (5%)	618 (8%)	22 (0.3%)	48 (0.6%)

Cyfranogwyr Anabl 0 i 17 oed



Cyfranogwyr Anabl 18 i 59 oed






Data Cyfranogiad Rhanbarthol

Caerdydd a Chanolbarth y De


O'r arolwg o glybiau a sesiynau cynhwysol, dangosodd data Caerdydd a Chanolbarth y De bod canran y cyfranogwyr benywaidd anabl ychydig yn uwch (37%) na chyfradd y cyfranogiad benywaidd anabl cyffredinol yng Nghymru (35%). Roedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn sylweddol uwch yng Nghaerdydd a Chanolbarth y De (11%) na'r boblogaeth gyffredinol o gyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol (6%) a rhanbarthau eraill Cymru. Fodd bynnag, mae canrannau'r cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg (3%) ac yn uniaethu fel LGBTQI+ (0.6%) yn is na phoblogaeth gyffredinol Cymru (12% ac 1%). Felly, mae angen cynyddu ymhellach nifer y bobl anabl sy'n siarad Cymraeg ac sy'n uniaethu fel LGTQI+.

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
		Nifer	Ychydig yn uwch (%)	Nifer	Ychydig yn uwch (%)	Nifer	Ychydig yn uwch (%)	Nifer	Ychydig yn uwch (%)	Nifer	Ychydig yn uwch (%)	Nifer	Ychydig yn uwch (%)
Medi 2023 a Mawrth 2024	3083	1125	37%	1948	63%	10	0.3%	90	3%	323	11%	17	0.6%



Wrth ystyried data Caerdydd a Chanolbarth y De, y grŵp oedran mwyaf actif oedd gwrywod anabl rhwng 0 ac 17 oed (43%), gyda benywod anabl 0 i 17 oed (25%) fel yr ail grŵp mwyaf actif. Mewn cyferbyniad, y grŵp oedran lleiaf actif oedd y grŵp oedran anabl arall 60+ oed (0.03%).


	Cyfan swm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023 a Mawrth 2024	3083	761 (25%)	253 (8%)	111 (4%)	1310 (43%)	428 (14%)	210 (7%)	6 (0.2%)	3 (0.1%)	1 (0.03%)



Gwent


Roedd y data rhanbarthol ar gyfer Gwent yn dangos bod canran y cyfranogwyr benywaidd anabl ychydig yn is (33%) na'r data cenedlaethol (35%). Roedd canran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl yn uwch (67%) na'r data cenedlaethol (56%). Roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yn is (3%) na'r ffigur cenedlaethol (12%). Roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ hefyd yn is (0.2%) na'r ffigur cenedlaethol (1%), tra bo canran y bobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol (5%) ond ychydig yn is na'r ffigur cenedlaethol (6%). Felly, mae angen cefnogi ymhellach unigolion anabl Cymraeg eu hiaith, o gymunedau ethnig amrywiol, ac sy'n uniaethu fel LGBTQI+ i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol.

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Medi 2023 a Mawrth 2024	453	151	33%	302	67%	0	-	13	3%	22	5%	1	0.2%



Y grŵp oedran mwyaf actif yn rhanbarth Gwent oedd gwrywod anabl rhwng 18 a 59 oed (35%), a gwrywod anabl rhwng 0 ac 17 oed (27%) oedd yr ail grŵp oedran mwyaf actif. Mae hyn yn amlygu bod y gwrywod anabl yn rhanbarth Gwent yn llawer mwy tebygol o fod yn actif na'r benywod anabl. Yn rhanbarth Gwent, ni chofnodwyd cyfranogwyr anabl a nododd fod ganddynt rywedd arall heblaw am fenyw neu wryw.

	Cyfan swm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023 a Mawrth 2024	453	60 (13%)	87 (19%)	4 (1%)	121 (27%)	160 (35%)	21 (5%)	0	0	0






Canolbarth Cymru

Dangosodd data rhanbarthol Canolbarth Cymru mai dim ond 20% o'r cyfranogwyr anabl oedd yn fenywod a dim ond 9% o'r cyfranogwyr anabl oedd yn wrywod, gyda 71% o'r cyfranogwyr anabl yn cael eu cofnodi fel Arall. Mae'n bosibl bod y ffigur hwn wedi cael ei ystumio gan fod un clwb o ganolbarth Cymru wedi mewnbynnu pob un o'i 610 o gyfranogwyr i'r categori rhywedd arall a gwneud nifer y cyfranogwyr a fyddai'n dewis arall fel eu rhywedd lawer yn uwch nag y byddai wedi bod fel arall. Dim ond 3% oedd canran y cyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg ac mae'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Dim ond 0.7% oedd canran y cyfranogwyr o gymunedau ethnig amrywiol, sy'n anhygoel o isel o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd canran y cyfranogwyr sy'n uniaethu fel LGBTQI+ (1%) yn unol â'r ganran genedlaethol. O'r herwydd, mae angen cefnogi mwy o bobl anabl a phobl o gymunedau ethnig amrywiol i ymgysylltu â chwaraeon a gweithgarwch corfforol Cymunedol.


	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
		Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent
Medi 2023 a Mawrth 2024	869	172	20%	82	9%	615	71%	27	3%	6	0.7%	9	1%





Wrth ystyried y grwpiau oedran penodol ymhlith y cyfranogwyr anabl, gellir gweld mai'r grŵp oedran mwyaf actif yng Nghanolbarth Cymru yw'r grŵp 0 i 17 oed arall (70%) gyda benywod anabl rhwng 0 a 17 oed fel yr ail grŵp mwyaf actif (35%). O gymharu, y grŵp oedran lleiaf actif oedd y grŵp oedran 60+ arall (0%). Rhaid tynnu sylw at effaith un clwb chwaraeon wnaeth fewnbynnu ei holl gyfranogwyr i'r categori arall, gan nad oedd hyn yn debygol o fod yn gynrychiolaeth gywir o rywedd y cyfranogwyr yng Nghanolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlygu er hynny mai'r cyfranogwyr anabl rhwng 0 a 17 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn actif ar draws pob rhywedd yng Nghanolbarth Cymru.

	Cyfan swm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023 a Mawrth 2024	869	129 (15%)	26 (3%)	17 (2%)	31 (4%)	36 (4%)	15 (2%)	612 (70%)	3 (0.4%)	0




Gogledd Cymru

Roedd data rhanbarthol Gogledd Cymru yn dangos bod canran y cyfranogwyr anabl benywaidd yn 37% o'r cyfranogwyr anabl cyffredinol sy'n actif yng Ngogledd Cymru, a oedd yn sylweddol is na chanran y cyfranogwyr gwrywaidd anabl sy'n actif yng Ngogledd Cymru (60%). I'r gwrthwyneb, roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru (34%) yn llawer uwch nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru ac yn sylweddol uwch na'r ganran genedlaethol (12%). Mae canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol (2%) yn is na'r ganran genedlaethol (6%). Mae canran y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ (1.4%) ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol (1%). O ganlyniad, mae angen rhoi cymorth pellach i gyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol i ymgysylltu â chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yng Ngogledd Cymru.




	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
Medi 2023 a Mawrth 2024	2036	760	37%	1224	60%	52	3%	688	34%	49	2%	28	1.4%



Roedd data rhanbarthol Gogledd Cymru oedd yn benodol ar gyfer pob grŵp oedran yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf actif oedd cyfranogwyr gwrywaidd anabl 0 i 17 oed (31%), a'r grŵp oedran 0 i 17 oed oedd y mwyaf actif yn gyffredinol. Y grŵp lleiaf actif oedd cyfranogwyr anabl 0 i 17 oed o rywedd arall (0), a'r grŵp oedran lleiaf actif ar draws y rhywiau oedd y grŵp oedran 60+ (11%).

	Cyfanswm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023 a Mawrth 2024	2036	388 (19%)	300 (15%)	72 (4%)	635 (31%)	496 (24%)	93 (5%)	0	5 (0.3%)	47 (2%)




Gorllewin Cymru

Roedd data rhanbarthol Gorllewin Cymru yn dangos bod canran y cyfranogwyr benywaidd anabl yn 41%, sy'n uwch na'r ganran genedlaethol (35%). Roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg yng Ngorllewin Cymru sy'n gorfforol actif (6%) yn is na'r ganran genedlaethol (12%). Dim ond 4% oedd canran y cyfranogwyr anabl o gymunedau ethnig amrywiol yng Ngorllewin Cymru, sy'n is na'r ganran genedlaethol o 6%. Fodd bynnag, roedd canran y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel


LGBTQI+ (2%) yn uwch na'r ganran genedlaethol (1%). Felly, mae angen cefnogi ymhellach unigolion anabl sy'n siarad Cymraeg ac o gymunedau ethnig amrywiol i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol yng Ngorllewin Cymru.

	Cyfanswm Nifer y Cyfranogwyr Anabl	Benywod		Gwrywod		Arall		Siarad Cymraeg		O Gymunedau Ethnig Amrywiol		Uniaethu fel LGBTQI+	
		Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Medi 2023 a Mawrth 2024	1026	417	41%	598	58%	11	1%	56	6%	44	4%	17	2%



Roedd data rhanbarthol Gorllewin Cymru oedd yn benodol ar gyfer pob grŵp oedran yn dangos mai'r grŵp oedran mwyaf actif o bobl anabl yng Ngorllewin Cymru oedd benywod anabl 0 i 17 oed (32%), a gwrywod anabl 0 i 17 oed fel yr ail grŵp oedran mwyaf actif (30%). Y grŵp oedran lleiaf oedd eraill 0 i 17 oed ac eraill 60+ oed. Cofnodwyd 0 cyfranogwr yn y ddau categori grŵp oedran yma.


	Cyfanswm	Benywod			Gwrywod			Arall		
		0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60+ oed	0 i 17 oed	18 i 59 oed	60 + oed
Medi 2023 a Mawrth 2024	1026	330 (32%)	77 (8%)	10 (1%)	304 (30%)	279 (27%)	15 (2%)	0	11 (1%)	0



Gweithlu Anabl

O'r arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol gellir deall demograffeg y gweithlu mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol anabledd a chynhwysol yn well. O ddata'r arolwg, mae modd deall, wrth gyfuno arolwg mis Medi 2023 ac arolwg mis Mawrth 2024, bod 20% o'r gweithlu mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cynhwysol yn anabl. Mae hyn ychydig yn is na chanran y boblogaeth yng Nghymru sy'n anabl, sef 21% (Cyfrifiad, 2021). O blith y gweithlu anabl hwn, mae 43% ohonynt yn siarad Cymraeg, dim ond 8% sydd o gymunedau ethnig amrywiol, a dim ond 8% yn uniaethu fel LGBTQI+. Mae canran y gweithlu sy'n siarad Cymraeg (43%) yn sylweddol uwch na chanran y bobl anabl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg (13%, Cyfrifiad, 2021). Fodd bynnag, mae angen cynyddu nifer y bobl anabl o fewn y gweithlu sy'n dod o gymunedau ethnig amrywiol ac sy'n uniaethu fel LGBTQI+.

Cyfanswm y Gweithlu o hyfforddwyr, swyddogion a gwirfoddolwyr	Anabl		Dim anabledd		Anabl yn Siarad Cymraeg		Anabl o Gymunedau Ethnig Amrywiol		Anabl yn Uniaethu fel LGBTQI+	
	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent	Nifer	Procent
Medi 2023	185	23%	622	77%	46	25%	23	12%	25	14%
Mawrth 2024	233	19%	988	81%	119	51%	11	5%	9	4%
Cyfun Medi 2023 a Mawrth 2024 (ar ôl tynnu'r dyblygu)	381	20%	1558	80%	162	43%	30	8%	30	8%



Argymhellion

- Gyda dim ond 35% o'r cyfranogwyr anabl cenedlaethol yn fenywod, argymhellir bod mwy o waith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb rhwng lefelau cyfranogiad benywod anabl a gwrywod anabl. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys digwyddiadau cyfres insport i fenywod yn unig, ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i fenywod anabl, mwy o farchnata cyfleoedd i fenywod anabl, a datblygu astudiaethau achos o gyfleoedd penodol i fenywod. Mae'r argymhelliad hwn yr un fath ar gyfer Caerdydd a Chanolbarth y De, Gwent, Gogledd, a Gorllewin Cymru.
- Wrth ystyried croestoriad y data, mae angen cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl sy'n siarad Cymraeg hefyd gan fod y ffigur cenedlaethol o'r arolwg hwn (12%) ychydig yn is na'r data Cyfrifiad (2021) o 13%. Er mwyn cynyddu nifer y cyfranogwyr anabl o fewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol, argymhellir y gellid gweithio gyda'r Urdd i gynyddu nifer y cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael i gyfranogwyr anabl neu hysbysebu mwy o gyfleoedd Cymraeg drwy astudiaethau achos. Mae angen gweithredu'r argymhelliad hwn yng Nghaerdydd a Chanolbarth y De, Gwent, y Canolbarth, a Gorllewin Cymru hefyd.
- Er bod arolwg clybiau a sesiynau cynhwysol y llynedd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl anabl o amrywiaeth ethnig sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol, mae'r ganran hon wedi gostwng dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Felly, dylid archwilio'r dysgu posibl o brosiect GOGA a'i ddatblygu ymhellach i sicrhau bod pobl anabl o gymunedau ethnig amrywiol yn parhau'n gyfranogwyr actif mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r argymhelliad hwn yr un fath ar draws pob un o'r pum rhanbarth yng Nghymru.
- Ers mis Mawrth 2022, mae data'r arolwg wedi bod yn gyson o ran bod nifer y cyfranogwyr anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ yn 1%. Fodd bynnag, mae hyn yn sylweddol is na'r 12.6% o'r boblogaeth anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+ yn ôl y Cyfrifiad (2021). Felly, mae angen gwella'n sylweddol y cyfleoedd sydd ar gael i bobl anabl sy'n uniaethu fel LGBTQI+. Er bod canran y cyfranogwyr o Orllewin Cymru yn uwch na'r ganran genedlaethol, mae'n parhau i fod yn is na'r 12.6% yn ôl data'r Cyfrifiad (2021). Felly, awgrymir bod pob un o'r pum rhanbarth yn gweithredu'r argymhelliad hwn.
- Yn ogystal â'r data cyfranogwyr, argymhellir hefyd bod angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n hyfforddwy a gwirfoddolwyr o fewn y gweithlu sy'n cefnogi clybiau a sesiynau cynhwysol. Gallai hyn fod drwy dynnu



sylw at y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael i bobl anabl drwy'r wythnos gwirfoddolwyr, cynnal astudiaeth achos o berson anabl penodol a sut mae wedi elwa o fod yn rhan o'r gweithlu, a gweithio gyda chyrff rheoli cenedlaethol i sicrhau bod eu llwybrau hyfforddi yn gynhwysol ac yn hygyrch i bobl anabl.

